

PWYLLGOR CRAFFU TAI A CHYMUNEDAU DIOGEL

Cofnodion Cyfarfod Hybrid a gynhaliwyd ar 7 Chwefror, 2024.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd A.M. Collins (Cadeirydd); Y Cynghorydd B. Loveluck-Edwards (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr J. Aviet, G. Ball, S.J. Haines, S.M. Hanks, W.A. Hennessy, S. Lloyd-Selby a H.M. Payne.

Hefyd yn bresennol: C. Ireland (Cynrychiolydd Cyngor ar Bopeth Caerdydd a'r Fro), G. Doyle, V. John a H. Smith (Cynrychiolwyr o Weithgor / Panel Tenantiaid), Cynghorwyr L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau), C.P. Franks, E. Goodjohn, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles), Dr. I.J. Johnson, S.D. Perkes (Aelod Cabinet dros Dai Sector Cyhoeddus a Chynnwys Tenantiaid), C. Stallard, E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd) a M.R. Wilson (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu).

789 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

790 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr S. Campbell a M.J.G. Morgan; a D. Dutch (Cynrychiolydd o Weithgor / Panel Tenantiaid).

791 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Ionawr, 2024 fel cofnod cywir.

792 DATGANIADAU BUDDIANT –

Gwnaeth y Cynghorydd W.A. Hennessy ddatganiad o ddiddordeb yn Eitem 4 ar yr Agenda – Cyllideb Gychwynnol 2024/25 a Chynllun Ariannol Tymor Canolig 2024/25 i 2028/29 Cynigion ar gyfer Ymgynghori. Roedd natur ei fuddiant oherwydd ei fod yn derbyn gwasanaeth teleofal gan y Cyngor (cyfeiriwyd at wasanaeth a thaliadau

Teleofal yn y cyfeirnod a'r adroddiad dan sylw). Roedd ganddo ollyngiad i siarad a phleidleisio yng nghyfarfodydd y Cyngor ar faterion cyffredinol, ond i siarad dim ond os oedd y mater yn rhagfarnu, ar faterion yn ymwneud â gwasanaethau teleofal (paragraffau (d) ac (f) o'r rheoliadau perthnasol).

Gwnaeth y Cynghorydd S. Lloyd-Selby ddatganiad o ddiddordeb yn Eitem 4 ar yr Agenda – Cyllideb Gychwynnol 2024/25 a Chynllun Ariannol Tymor Canolig 2024/25 i 2028/29 Cynigion ar gyfer Ymgynghori. Roedd natur ei buddiant yn fuddiant personol nid oedd yn rhagfarnu, oherwydd bod aelodau'r teulu'n derbyn gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Theleofal. Roedd ganddi oddefeb i siarad yn unig ar faterion yn ymwneud â gwasanaethau Teleofal a Phecyn Gofal yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg (paragraffau (d) ac (f) o'r rheoliadau perthnasol).

Gwnaeth y Cynghorydd H.M. Payne ddatganiad o ddiddordeb yn Eitem 6 ar yr Agenda – Strategaeth Gorfforaethol Arfaethedig ar gyfer Plant sydd Angen Gofal a Chymorth 2024-28. Natur ei diddordeb oedd y cyfeiriad at Llamau mewn sawl rhan o'r adroddiad, sef ei chyflogwr. Roedd ganddi oddefeb i siarad yn unig yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg pan drafodwyd materion yn ymwneud â thai a digartrefedd yn ymwneud â chyllid ac eiddo o ystyried rôl y Cynghorydd ar gyfer Llamau (paragraffau (c), (d), (f) ac (h) o'r rheoliadau perthnasol).

Gwnaeth y Cynghorydd H.M. Payne ddatganiad o ddiddordeb yn Eitem 7 ar yr Agenda – Digartrefedd – Diweddariad ar y Cynllun Ailgartrefu Cyflym. Natur ei diddordeb oedd y cyfeiriad at Llamau yn yr adroddiad, sef ei chyflogwr. Roedd ganddi oddefeb i siarad yn unig yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg pan drafodwyd materion yn ymwneud â thai a digartrefedd yn ymwneud â chyllid ac eiddo o ystyried rôl y Cynghorydd ar gyfer Llamau (paragraffau (c), (d), (f) ac (h) o'r rheoliadau perthnasol).

793 CYLLIDEB GYCHWYNNOL 2024/25 A CHYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2024/25 I 2028/29 CYNIGION AR GYFER YMGYNGHORI (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2024 gan y Rheolwr Gweithredol Cyfrifeg, a'i ddiben oedd cyflwyno cynigion cyllideb y Cyngor ar gyfer ymgynghori â thrigolion, rhanddeiliaid eraill a Phwyllgorau Craffu'r Cyngor.

Rhoddyd cyflwyniad i'r Pwyllgor i gyd-fynd â'r adroddiad, a oedd yn tynnu sylw at y pwyntiau allweddol, gan gynnwys y canlynol:

- Y penawdau cyllideb refeniw gan nodi'r broses gyllidebol heriol, pwysau cost, yr angen i flaenoriaethu cyllid ar gyfer Gofal Cymdeithasol, Ysgolion a Digartrefedd yn ogystal â manylion ynghylch setliad Llywodraeth Cymru, y cynnydd yn y Dreth Gyngor a gofynion arbedion ar gyfer gwasanaethau'r Cyngor.
- Cysylltiadau rhwng y gyllideb a'r Arolwg Beth am Siarad am Fywyd yn y Fro, gan gynnwys ymatebion arolwg i'r Pwyllgor, h.y. y flaenoriaeth gan drigolion ynghylch 'prynu neu rentu cartref o ansawdd da'.

- Cylch Cynllunio'r Gyllideb a'r gwahanol gamau o gyflwyno pwysau cost yn gychwynnol hyd at adolygiad gan yr Uwch Dîm Arwain (UDA) a'r Cabinet Busnes.
- Crynodeb o'r sefyllfa bum mlynedd, gan gynnwys y cynnydd o £13m mewn cyllid yn 2024/25, defnyddio'r Gronfa Digartrefedd i liniaru pwysau cost digartrefedd, y diogelu perthynol ar gyfer gwasanaethau fel Dysgu a Sgiliau a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ogystal â'r bwriad i ymestyn hyn i'r Gronfa Gyffredinol - Tai, a'r bwriad i fynd i'r afael â'r pwysau digartrefedd drwy'r Rhaglen Ailgartrefu Cyflym a defnyddio llai o'r Gronfa ar draws y cyfnod yn amodol ar adolygiad agos, ac ati.
- Crynodeb Refeniw Drafft 2024/25 fesul Ardal a Phwysau cost sy'n benodol i Graffu (Cost Llety Gwely a Brecwast i'r Digartref).
- Cynigion arbedion (tactegol a thrawsnewidiol) ac arbedion sy'n benodol i Graffu (h.y. Ymgynghorydd Cyn-denantiaeth Addasiad y Gyllideb a'r gyllideb Tenantiaethau Gwirfoddol a Gynorthwyir).
- Defnyddio cronfeydd wrth gefn y Cyngor h.y. £2.7m o gronfeydd wrth gefn i'w defnyddio fel rhan o'r cynigion hyn, yn bennaf o Ddigartrefedd ac Ynni, hyd at sefydlu cronfeydd wrth gefn i gefnogi Trawsnewid a'r angen i adolygu cronfeydd wrth gefn ychwanegol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol a Risg y Gyllideb.
- Roedd y Cyngor wedi cyflawni tua 85% o'i arbedion yn 2023/24.
- Y camau nesaf yn y broses gyllidebol, o ymgynghori ag amrywiol randdeiliaid a Chraffu, hyd at ddrafft terfynol y Gyllideb yn mynd i'r Cabinet ac yna ymlaen i'r Cyngor Llawn i'w gadarnhau.

Yn dilyn cyflwyno'r cyfeiriad a'r adroddiad, cafodd y sylwadau a'r ymholiadau canlynol eu gwneud:

- O ran ymholiad y Cynghorydd Hennessy ar y £2.7m o gronfeydd wrth gefn ac a oedd y rhain yn cael eu defnyddio tuag at gost llogi'r gwesty yn y Rhws ar gyfer llety dros dro, esboniwyd bod y rhan fwyaf o'r pwysau cost hynny'n gysylltiedig â sicrhau bod y ddarpariaeth yn parhau yn 2024/25.
- Gofynnodd y Cynghorydd Franks, gyda chaniatâd i siarad, am y grant tai 'neb heb help' a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru (LIC) ac a fyddai hyn yn parhau i gael ei dalu ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Esboniwyd bod y grant hwn wedi'i leihau y flwyddyn ariannol bresennol, a oedd wedi helpu i greu'r pwysau cost ar gyfer darpariaeth gwely a brecwast. Roedd Cronfa Atal Digartrefedd LIC wedi lleihau o £5m i £2m oherwydd pwysau ar LIC, a oedd wedi effeithio ar fesurau atal digartrefedd ac ati ar gyfer y Cyngor, h.y. y cyllid llety dros dro a Chynllun Tenantiaeth a Gynorthwyir y Fro. Gofynnodd y Cynghorydd Franks a allai'r Pwyllgor fynegi ei bryderon i'r Cabinet drwy atgyfeirio'r adroddiad hwn a'i sylwadau, ond teimlai'r Is-gadeirydd fod y cyllid 'neb heb help' eisoes wedi cael sylw yn yr adroddiad ac y byddai'n cael ei ystyried gan y Cabinet a byddai'n rhaid cydbwyso unrhyw sylwadau â'r gydnabyddiaeth bod setliad ariannol LIC wedi'i dderbyn yn ogystal â'r angen i gydnabod y pwysau cost sylweddol a oedd yn dod o Addysg a Gofal Cymdeithasol. Cynhaliodd y Pwyllgor bleidlais ar y cynnig hwn ar ôl hynny ond ni chafodd ei basio.

- O ran cais y Cynghorydd Lloyd-Selby am eglurhad ar setliad LIC i lywodraeth leol, cadarnhawyd bod Llywodraeth y DU wedi rhoi setliad o 2.1% i LIC ond a oedd yn ei dro wedi trosglwyddo cynnydd o 3.1% i'w setliad i lywodraeth leol. Roedd hefyd yn teimlo y dylid diolch i'r swyddogion cyllid a oedd wedi cymryd rhan yn yr adroddiad hwn am eu holl ymdrechion.

Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried y cyfeiriad a'r adroddiad atodol, wedi hynny

ARGYMHELLWYD – Y DYLLID nodi'r cyfeiriad a'r adroddiad atodol ar Gyllideb Gychwynnol 2024/25 a Chynllun Ariannol Tymor Canolig 2024/25 i 2028/29 Cynigion ar gyfer Ymgynghori.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys y geirada, yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

794 CYNIGION RHAGLEN GYFALAF DRAFFT 2024/25 i 2028/29 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2024 gan y Rheolwr Gweithredol Cyfrifeg, a'i ddiben oedd ymgynghori â'r Pwyllgor ar y cynigion drafft ar gyfer Rhaglen Gyfalaf 2024/25 i 2028/29.

Rhoddodd y Rheolwr Gweithredol Cyfrifeg gyflwyniad i'r Pwyllgor gan roi pwyntiau allweddol yr adroddiad i'r Aelodau a oedd yn cynnwys y canlynol:

- Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor nad oedd llawer iawn a oedd yn berthnasol i'r Pwyllgor Craffu hwn o ran cynigion a bidiau cyfalaf, gyda'r rhan fwyaf o'r buddsoddi yn y gofod Tai wedi'i godi fel rhan o'r rhaglen Gwella Tai a gyflwynwyd yn flaenorol i'r Pwyllgor a byddai'r cynigion hynny'n cael eu cynnwys fel rhan o'r Cynigion Cyfalaf terfynol ddiwedd mis Chwefror.
- O ran y setliad dros dro a ddyfarnwyd gan LIC, roedd hyn yn cyd-fynd yn eang iawn â'r cyllid a dderbyniwyd yn flaenorol yn 2023/24 gyda gostyngiad o £11k o Gyllid Cyfalaf Cyffredinol 2023/24 a oedd yn £6.997m.
- Gan nad oedd unrhyw arwydd pellach wedi dod gan LIC, rhagdybiwyd y byddai lefel y cyllid cyfalaf yn cael ei gwastatáu ar £6.986m o 2025/26 ymlaen, ac yna byddai'n aros yn gyson am weddill cyfnod y rhaglen hon.
- Rhoddwyd crynodeb o'r Cynigion Cyfalaf drafft fel yr oeddent ar 18 Ionawr a nodwyd bod y cynigion tai hynny'n adlewyrchu'r Cynllun Gwella Tai fel yr oeddent ar hyn o bryd.
- Roedd y cyfeiriad at gynlluniau 'piblinell' yn y tabl cynigion yn cyfeirio at y cynlluniau hynny a oedd yn amodol ar gymeradwyaeth achos busnes; ar ôl i achos o'r fath gael ei gymeradwyo, byddai'r rhain yn cael eu symud i'r Gyfarwyddiaeth berthnasol.
- O ran cynigion cyfalaf y gofynnwyd iddynt gael eu dychwelyd erbyn 20 Hydref, roedd cyfanswm o 47 o fidiau wedi'u cyflwyno gydag angen i'r bidiau hynny yn 2024/25 gael eu hariannu ychydig yn is na £18.9m ac roedd gan y Cyngor £366k o gyllid Adnewyddu Asedau heb ei ddyrannu ar hyn o bryd.
- Roedd tua £1.3m o gyllid Adnewyddu Asedau heb ei ddyrannu yn 2025/26.

- Amlinellwyd yr amrywiol Gynigion Cyfalaf drafft er y nodwyd nad oedd unrhyw fidiau y cynigiwyd eu hariannu a oedd yn berthnasol i'r Pwyllgor Craffu hwn a byddai'r Rhaglen Gyfalaf Derfynol yn adlewyrchu cynnwys y Cynllun Gwella Tai a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Ionawr 2024.
- Yn olaf, y camau nesaf o ran y broses ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf a amlinellwyd o ymgynghori hyd at Graffu a chymeradwyo gan y Cabinet a'r Cyngor Llawn.

Yn dilyn cyflwyno'r cyfeiriad a'r adroddiad atodedig gyda'r sleidiau perthnasol, cafwyd y cwestiynau a'r ymholiadau canlynol gan y Pwyllgor:

- Amlinellodd y Cynghorydd Hanks ei siom bod yr Ailgylchu Gwastraff y Cartref newydd yn Llandŵ wedi'i dynnu allan o'r cynlluniau cyfalaf a gofynnodd a fyddai'r £100k a ddyrannwyd i welliannau'r safle, h.y. ffyrdd, yn cael ei wario maes o law. Mewn ymateb, esboniwyd mai'r ddealltwriaeth bresennol oedd bod rhai gwelliannau yn cael eu gwneud ar y safle ar hyn o bryd gan gynnwys ailwynebu'r ffyrdd, gyda rhywfaint o ddarpariaeth ychwanegol i'w darparu yn rhaglen 2024/25 ond byddai mwy o fanylion yn cael eu ceisio a'u rhoi i'r Cynghorydd a'r Pwyllgor.

Pwyllgor Sgrwtini ar ôl ystyried y cyfeiriad a'r adroddiad atodol, wedi hynny

ARGYMHELLWYD – Y DYLLID nodi'r cyfeiriad a'r adroddiad atodol ar Gynigion Drafft y Rhaglen Gyfalaf 2024/25 i 2028/29.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys y geirada, yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

795 STRATEGAETH GORFFORAETHOL ARFAETHEDIG AR GYFER PLANT SYDD ANGEN GOFAL A CHYMORTH 2024-28 (CGC) –

Rhoddodd yr adroddiad, a gyflwynwyd gan Bennaeth y Gwasanaethau Adeiladau a Thai, drosolwg i'r Pwyllgor o'r Strategaeth Gorfforaethol 2024-28 arfaethedig ar gyfer Plant Sydd Angen Gofal a Chymorth. Y Strategaeth arfaethedig a atodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad oedd trydedd Strategaeth Gorfforaethol Bro Morgannwg ar gyfer Plant Sydd Angen Gofal a Chymorth, a oedd yn adlewyrchiad o gyfrifoldebau'r Cyngor yn y maes hwn o ganlyniad i ddeddfwriaeth, polisïau LIC a pholisïau'r Bwrdd Iechyd. Nododd y Strategaeth dair blynedd gychwynnol, a gymeradwywyd gyntaf gan y Cabinet ym mis Hydref 2016, newid sylweddol o ran cydnabod cyfrifoldebau'r Cyngor cyfan o ran galluogi plant sydd angen gofal a chymorth i gael y cymorth cywir ar yr adeg gywir i wella eu lles a'u hamddiffyn rhag niwed, ac o ran alinio rolau nifer o Gyfarwyddiaethau wrth gyflawni'r camau gweithredu cysylltiedig. Gwnaeth yr ail Strategaeth adeiladu ar y sylfeini hyn ac adlewyrchu'n gadarnhaol y perthnasau traws-sector o fewn ei Chynllun Gweithredu. Parhaodd y drydedd Strategaeth â'r etifeddiaeth hon ar ôl cael ei datblygu mewn partneriaeth â phartneriaid allanol y Cyngor ym maes Iechyd, yn y Trydydd Sector a thrwy ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a'u teuluoedd a'u gofalwyr.

Nododd y Strategaeth arfaethedig sut, drwy ddefnyddio model integredig o wasanaethau, y byddai anghenion plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael eu bodloni, o fewn yr adnoddau a oedd ar gael i'r Cyngor a'i bartneriaid, yn ystod y cyfnod rhwng 2024 a 2028. Cafodd y Strategaeth ei hategu gan bedwar Amcan a nifer o egwyddorion a oedd yn canolbwyntio ar weithio gyda phlant, pobl ifanc, eu teuluoedd a'u gofalywr i roi cymorth cyn gynted â phosibl.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, cafwyd y sylwadau a'r ymholiadau canlynol eu gwneud yn y cyfarfod:

- Gofynnodd y Cynghorydd Haines am eglurhad ar beth oedd y Grŵp Rheoli Strategaeth Gorfforaethol. Esboniwyd mai grŵp o uwch swyddogion oedd hwn, gan gynnwys Penaethiaid Gwasanaeth sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc o fewn y Cyngor, ond roedd hefyd yn cynnwys uwch gynrychiolwyr o gyrff lechyd a'r Trydydd Sector hefyd. Gwnaeth y Grŵp hwn helpu i ddatblygu'r Strategaeth ac i fonitro'r camau gweithredu dilynol yn ogystal â chynorthwyo gyda gwahanol elfennau'r gweithdai cysylltiedig. Yn dilyn yr ymateb, mynegodd y Cynghorydd Haines bryderon am gyrff y Trydydd Sector a oedd yn eistedd ar y Grŵp a oedd i bob pwrpas yn monitro eu gwasanaethau eu hunain ac roedd eisiau sicrwydd bod torbwynt rhyngddynt a'r gwasanaethau. Mewn ymateb, esboniwyd bod nifer o sefydliadau'r Trydydd Sector a gomisiynwyd yn uniongyrchol gan y Cyngor ar gyfer cymorth tai neu drwy'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac roedd mecanweithiau y tu allan i'r Grŵp a roddwyd ar waith i fonitro'r gwasanaethau a gomisiynwyd ganddynt. Hefyd, fel rhan o waith y Grŵp hwn, heriodd yr aelodau amrywiol ei gilydd yn gadarnhaol i helpu i ddatblygu'r camau gweithredu gofynnol, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr cyrff y Trydydd Sector. O ran sicrwydd pellach i'r Pwyllgor, roedd y tu allan i hyn, o ran gwasanaethau a gomisiynwyd, ddadansoddiad manwl a wnaed i sicrhau bod canlyniadau ac allbynnau'r gwasanaethau a gomisiynwyd yn cyflawni ac yn darparu'r hyn a oedd ei angen a oedd yn annibynnol ar y Grŵp hwn.
- Dywedodd y Cynghorydd Hanks fod hwn yn adroddiad sy'n ysgogi'r meddwl ac yn hynod ddiddorol a gofynnodd pa mor hyderus oedd Pennaeth y Gwasanaethau Adeiladau a Thai o ran Amcan 3 ar ddarparu a chomisiynu cymysgedd hyblyg a fforddiadwy o wasanaethau o ansawdd uchel gyda chyflwr presennol cyllidebau'r Cyngor a gofynnodd am sicrwydd ar hyn. Esboniwyd bod y Cyngor eisoes yn darparu ystod o wasanaethau cymorth llety fel gwasanaethau mynediad uniongyrchol wedi'u hariannu drwy'r Rhaglen Cymorth Tai, ond cydnabuwyd hefyd bod y Cyngor wedi cael cyfle i ddefnyddio ei Raglen Datblygu Tai ei hun i allu bod ychydig yn fwy arloesol o ran y math o ddarpariaeth cymorth llety a oedd ganddo. Byddai hyn yn golygu defnyddio adnoddau presennol yn ogystal â chael rhywfaint o gapasiti ychwanegol o feysydd eraill e.e. derbyn cyllid cyfalaf integredig drwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn ogystal â phrosiectau eraill a oedd eisoes yn cael eu cynllunio. Roedd y Cyngor hefyd yn mynd ati i edrych ar ffynonellau llety amgen, ond roedd adnoddau bob amser yn mynd i fod yn broblem ond er sicrwydd roedd y Cyngor yn parhau i edrych ar weithio'n fwy cydweithredol o ran gweithio gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol a gydag lechyd. Byddai amrywiaeth o ddarpariaethau yn y 18 mis nesaf a fyddai'n cynnig hyblygrwydd

ac arloesedd ychwanegol o ran gwasanaethau llety a fyddai'n cael eu darparu i blant a phobl ifanc.

- Cyfeiriodd yr Is-gadeirydd at Amcan 4 y Strategaeth Gorfforaethol arfaethedig mewn perthynas â gwell opsiynau tai a chymorth tai i blant a phobl ifanc. Gan ystyried y pwysau cost a'r penderfyniadau anodd yr oedd y Cyngor yn gorfod eu gwneud ar hyn o bryd, gofynnodd a ellid ehangu ar beth oedd yr opsiynau a beth fyddai hyn yn ei olygu mewn gwirionedd. Gofynnodd hefyd a fyddai'n deg nodi, er y cydnabuwyd bod y gyfran uchaf o Blant sy'n Derbyn Gofal yn cael gofal gan berthnasau, mai ei dealltwriaeth hi oedd, nes i'r llywodraeth ganolog newid y system les a rhoi hawliau cyfartal i ofalwyr sy'n berthnasau, y byddai'n dal i fod yn frwydr neu'n ffactor i'w ystyried wrth symud ymlaen o ran nifer y bobl sy'n dewis gweithredu fel gofalwyr sy'n berthnasau. Mewn ymateb i'r cwestiwn cyntaf, yn anecdotaidd roedd y Cyngor yn ymwybodol o bobl ifanc y byddai'r Cyngor yn eu hailgartrefu ac yn eu symud i fyw'n annibynnol trwy ddewis, ond canfuwyd hefyd bod peryglon yn gysylltiedig â hynny yn ogystal â phrofiad o bobl ifanc efallai yn colli llety neu'n cael anawsterau rheoli'r llety hwnnw a rhan o'r camau gweithredu hyn oedd cydnabod y gallai fod yn briodol ar gyfer rhai lefelau ychwanegol o gymorth er mwyn cynnal eu tenantiaethau er mwyn sicrhau yn y pen draw y byddai pobl ifanc yn gallu cynnal eu llety. Fodd bynnag, cydnabuwyd ar hyn o bryd nad oedd digon o dai cymorth ar gyfer pobl ifanc a oedd angen y cymorth ychwanegol hwnnw neu a ddewisodd fyw am ychydig yn hirach mewn amgylchedd cymorth. Yr elfen tai cymorth yr oedd y Cyngor yn bwriadu cynyddu naill ai mewn lleoliad yn y gymuned neu drwy ddatblygu tai newydd gyda mesurau o'r fath yn cael eu cynllunio gyda chydweithwyr yn y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd. Cydnabuwyd y byddai'n ddefnyddiol ar ryw adeg yn y dyfodol gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor i roi mwy o fanylion am brosiectau o'r fath a oedd yn cael eu cynllunio a'r amrywiol opsiynau a oedd yn cael eu datblygu a fyddai'n helpu i roi digon o sicrwydd i'r Pwyllgor o ran y gallu i gyflawni'r gwaith hwn a oedd yn cael ei gynllunio. O ran yr ail gwestiwn, roedd y Panel Rhianta Corfforaethol wedi cydnabod y pwysau a welwyd yn y trefniadau gofal maeth a gofal gan berthnasau ac roedd y rhain wedi cael eu trafod gan y Panel yn ddiweddar. Fodd bynnag, roedd cydnabyddiaeth hefyd bod pwysau eithafol o fewn y system gan gynnwys y pwysau ariannol a'r gofynion cyllidebol ar swyddogion y Cyngor o fewn meysydd fel y Gwasanaethau Plant.

Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried yr adroddiad, wedi hynny

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI'r cynnydd a wnaed o ran datblygu Strategaeth Gorfforaethol bedair blynedd newydd a Chynllun Gweithredu ar gyfer Plant sydd angen Gofal a Chymorth.

(2) NODI'r Strategaeth arfaethedig a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig.

Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

796 DIGARTREFEDD – DIWEDDARIAD AR Y CYNLLUN AILGARTREFU CYFLYM (CAT) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Gweithredol, Gwasanaethau Tai Cyhoeddus, a dynnodd sylw at y pwysau sylweddol mewn perthynas â digartrefedd ym Mro Morgannwg ac a roddodd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ynghylch y camau a oedd yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r sefyllfa drwy Gynllun Ailgartrefu Cyflym y Cyngor. Tynnodd yr adroddiad sylw hefyd at gamau gweithredu ychwanegol, a oedd wrthi'n cael eu hystyried, i gynorthwyo niferoedd uchel o aelwydydd yr oedd digartrefedd yn effeithio arnynt a lleihau'r defnydd presennol o lety gwely a brecwast. Roedd y pwyntiau allweddol yn cynnwys:

- Bu cynnydd enfawr yn y galw am lety cymdeithasol a Chyngor dros dro oherwydd newidiadau yn y farchnad dai, cyfraddau llog uchel a rhenti uwch yn y sector rhent preifat.
- Roedd y Cyngor wedi llwyddo i symud pobl ymlaen o lety dros dro i lety parhaol, ond roedd hyn wedi'i wrthbwyso gan y lefelau uwch o bobl a oedd yn nodi wrth y Cyngor eu bod yn ddigartref.
- Rhan allweddol o gynllun y Cyngor oedd atal digartrefedd yn y lle cyntaf a barhaodd fel y canlyniad mwyaf dymunol a'r un mwyaf cost-effeithiol h.y. gweithio gydag ysgolion a phobl ifanc, yn ogystal ag ymdrechion tîm Datrysiadau Tai'r Cyngor, ond roedd hyn yn parhau'n her gyson oherwydd y pwysau amrywiol ar denantiaid a thai.
- Roedd rhannau allweddol eraill o'r Cynllun Ailgartrefu Cyflym yn cynnwys cynyddu'r cyflenwad o lety (adeiladu tai Cyngor a mwy o dai cymdeithasol, yn ogystal â gwneud y defnydd gorau o lety rhent preifat, prynu tir ar gyfer datblygu tai, trosi adeiladau eraill yn anheddau, ac ati), newidiadau i'r gweithdrefnau dyraniadau fel bod aelwydydd â'r angen tai mwyaf yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer tai cymdeithasol a'r angen parhaus i ddefnyddio llety dros dro, fel cadw llawer o ystafelloedd mewn gwestai lleol.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, cafwyd y sylwadau a'r ymholiadau canlynol eu gwneud yn y cyfarfod:

- Gofynnodd y Cynghorydd Hennessy pa mor hir yr oedd pobl yn aros yn y llety gwesty yn y Rhws ar gyfartaledd a beth oedd cyfansoddiad y digartref yno o ran teuluoedd a phobl sengl. Esboniwyd bod 75 o ystafelloedd yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd yn y llety gwesty dan sylw, gyda 6-8 o deuluoedd yno ar unrhyw un adeg, gyda'r gweddill yn cynnwys pobl sengl. O ran yr amserlenni ar gyfer pobl a oedd yn aros yn y math hwn o lety dros dro, symudodd y nifer fach o deuluoedd a oedd yn byw yno fel arfer i lety mwy parhaol ar ôl 3-5 mis. Fel arfer, roedd pobl sengl yn aros mewn llety dros dro am lawer hirach, oherwydd prinder llety priodol.
- O ran ymholiad arall y Cynghorydd Hennessy ynghylch yr amserlen a'r gost er mwyn adnewyddu hen adeilad Olive Lodge B&B a fyddai'n cael ei drosi'n llety dros dro hunangynhwysol ar gyfer pobl ddigartref, esboniwyd bod y gwaith adnewyddu i fod i ddechrau yn fuan neu ei fod newydd ddechrau ac y byddai manylion am gostau yn cael eu hanfon ymlaen i'r Pwyllgor ar ôl eu cadarnhau.

Cynhaliwyd asesiad hyfywedd i sicrhau bod y datblygiad hwn yn hyfyw ac yn gyflawnadwy.

- Dywedodd y Cynghorydd Payne fod mynd i'r afael â digartrefedd yn fater cymhleth ac yn heriol dros ben, gyda 11,000 o bobl mewn llety dros dro ledled Cymru. Cyfeiriodd at y gwaith da a oedd eisoes yn cael ei wneud gan Gyngor Bro Morgannwg drwy'r gwahanol dimau o ran tai i bobl ifanc drwy nifer o brosiectau a chynlluniau, a'r datblygiad newydd yn Coldbrook Road a allai dynnu hyd at 120 o bobl oddi ar y rhestrau tai a llety dros dro. Gofynnodd hefyd am y ddyletswydd tai a phobl a oedd yn nodi eu bod yn ddigartref, yn ogystal â phobl a oedd yn cofrestru ar gyfer Homes4U, yng ngoleuni Ailgartrefu Cyflym. O ran y cwestiynau hyn, esboniwyd mai ar gyfer Homes4u hwn oedd y modd canolog o ddyrannu tai Cyngor yn y Fro, a oedd yn adnodd prin. Roedd 6,200 o bobl ar restr Homes4U o hyd, gyda rhai ohonynt yn cael eu hystyried yn flaenoriaeth uchel o ran angen tai. Roedd y Cyngor hefyd yn mynnu bod gan bobl gysylltiad lleol; fodd bynnag, gellid ystyried y rhai heb hyn o hyd ond byddent yn cael eu trin fel blaenoriaeth lai, ac eithrio dan amgylchiadau penodol, h.y. dioddefwyr cam-drin domestig. Ond gallai hyn newid dan y cynigion o fewn Papur Gwyn LIC ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru.
- Nododd y Cynghorydd Lloyd-Selby y cynnydd sylweddol i renti tenantiaid yn y sector preifat yn y Fro (tua 15.6% o aelwydydd yn y Sir) a'r effaith roedd hyn yn ei chael ar dai a digartrefedd yn ogystal â'r ffaith bod dim llety ar osod preifat ar gael ar gyfer y gyfradd Lwfans Tai Lleol yn lleol. Gofynnodd beth fyddai'r llwybr gorau i fynegi pryderon ynghylch yr angen clir i godi'r gyfradd Lwfans Tai Lleol ar lefel y DU. Gofynnodd hefyd am fanteision prynu'n ôl eiddo'r Cyngor a brynwyd yn flaenorol. O ran y Lwfans Tai Lleol, roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) ar y cyd â Cartrefi Cymunedol Cymru a LIC wedi lobio Llywodraeth y DU ar y mater hwn. Byddai fforddiadwyedd eiddo rhent preifat yn parhau'n her o leiaf yn y byrdymor i'r tymor canolig. O ran prynu'n ôl lety a oedd yn berchen i'r Cyngor yn flaenorol, roedd manteision gwneud hyn yn cynnwys y ffaith eu bod yn bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) ac yn gyffredinol yn gofyn am lai o waith adfer. Roeddent hefyd yn tueddu i gael eu lleoli o fewn ystadau tai ac ardaloedd lle'r oedd y Cyngor eisoes yn berchen ar gartrefi ac felly roedd y gwaith o'u rheoli'n llawer haws. Anogodd y Cynghorydd y Pwyllgor i argymhell i'r Cabinet ei fod yn defnyddio llais y Cyngor i helpu i lobio Llywodraeth y DU yn fwy er mwyn cynyddu'r gyfradd Lwfans Tai Lleol i sicrhau bod llety rhent preifat yn fforddiadwy. Roedd hefyd yn bwysig cyfeirio unrhyw un a oedd yn wynebu anawsterau wrth gadw eu cartrefi a'u tenantiaethau i'r siop un stop (Pobl), tîm Tai'r Cyngor a chyrff eraill.
- Cododd yr Is-gadeirydd y rhan o'r adroddiad a oedd yn dangos y gostyngiad yn nifer y tenantiaid a gafodd eu hatal rhag colli eu tenantiaethau gan y Cyngor (o 70% i 50%) a gofynnodd a oedd rhai landlordiaid preifat yn gwrthsefyll dulliau gan y Cyngor i atal tenantiaid rhag cael eu troi allan. Byddai hefyd yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor dderbyn mwy o wybodaeth neu adroddiad ar ymarfer pilot Cyngor Bro Morgannwg ar drosi adeiladau presennol y Cyngor ac adeiladau amhreswyl i gynyddu'r cyflenwad o lety parhaol a dros dro fel rhan o ddull arloesol o fynd i'r afael â digartrefedd. O ran atal troi allan a digartrefedd, roedd hyn yn her gynyddol. Roedd amgylchiadau landlordiaid preifat i gyd yn wahanol ac roeddent yn wynebu

heriau ariannol a heriau amrywiol eraill, ond yn gyffredinol roeddent yn ymgysylltu â'r Cyngor o ran atal tenantiaethau rhag cael eu colli, ac yna gellid achub rhai o'r rhain. Roedd gwaith ar atal troi allan a digartrefedd ar gyfer tenantiaethau preifat yn cael ei wneud fesul achos. Roedd y Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â landlordiaid preifat a oedd yn gyffredinol yn gyfrifol ac yn rhannu gwerthoedd tebyg i werthoedd y Cyngor. Roedd fforwm landlordiaid diweddar wedi dangos yr heriau yr oeddent yn eu hwynebu ac i rai nid oedd yn ymarferol yn ariannol parhau i osod eu heiddo i denantiaid mwyach. Gallai'r Cyngor gynnig cymorth, ac ati fesul achos er mwyn arbed tenantiaethau, oherwydd bod atal yn ddatrysiaid mwy cost-effeithiol a buddiol na chartrefu pobl mewn llety dros dro ar ôl cael eu troi allan. Ychwanegodd Pennaeth y Gwasanaethau Adeiladau a Thai mai dim ond rhan o'r ateb i'r argyfwng tai presennol oedd mynediad at lety rhent preifat, ar y cyd â mesurau eraill i fynd i'r afael â'r sefyllfa dai a heriau eraill yn ymwneud â thai y byddai'n rhaid eu hwynebu yn y dyfodol agos h.y. y pwysau ar berchnogion tai preifat wrth i'w morgeisi cyfnod penodol ddod i ben, ac a allai effeithio ar lefelau'r bobl sy'n nodi eu bod yn ddigartref yn y Fro. Roedd Awdurdodau Lleol a LIC yn edrych ar sut i fynd i'r afael â'r mater hwn a oedd yn dod i'r amlwg.

- Ychwanegodd y Cynghorydd Hanks, yn ogystal â rhoi gwybodaeth bellach i'r pwyllgor ar yr ymarfer peilot ar drosi adeiladau presennol y Cyngor ac adeiladau amhreswyl, y dylid rhannu gwybodaeth ychwanegol gyda'r Pwyllgor ynghylch y prosiect Pwyslais a'r gwaith a oedd yn cael ei wneud gyda Llamau yn y maes hwn. Byddai'r ceisiadau hyn yn cael eu hychwanegu at raglen waith y Pwyllgor ar gyfer adrodd yn y dyfodol.

Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried yr adroddiad wedi hynny

ARGYMHELLWYD –

- (1) NODI'r pwysau presennol ar wasanaethau sy'n deillio o ddigartrefedd a'r cynnydd o ran gweithredu'r Cynllun Ailgartrefu Cyflym.
- (2) NODI'r camau sy'n cael eu cymryd i leihau'r defnydd o lety dros dro.
- (3) CYFEIRIO'r sylw canlynol i'r Cabinet i'w ystyried:
 - Pwysigrwydd Cyngor Bro Morgannwg i roi ei lais i helpu i gynyddu galwadau a lobio Llywodraeth y DU er mwyn cynyddu cyfradd y Lwfans Tai Lleol i sicrhau bod rhenti preifat yn fforddiadwy.
- (4) BOD y Pwyllgor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am drawsnewid adeiladau presennol y Cyngor ac adeiladau dibreswyl i gynyddu'r cyflenwad o lety parhaol a thros dro, yn ogystal ag adolygiad o'r prosiect Pwyslais a'r gwaith sy'n cael ei wneud gyda Llamau yn y maes hwn.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(3) Er mwyn i'r Cabinet ystyried rhoi cymorth Cyngor Bro Morgannwg i alwadau a lobio Llywodraeth y DU i gynyddu cyfradd y Lwfans Tai Lleol i lefel fwy fforddiadwy.

(4) Bod y Pwyllgor yn derbyn diweddariadau ar y gwaith sy'n cael ei wneud yn y meysydd hyn, fel rhan o ymdrechion y Cyngor i fynd i'r afael â digartrefedd a gweithredu ailgartrefu cyflym.